# Categori Tir a Byd Natur

Pan fydd eglwysi'n rheoli tir er budd natur, boed y tir hwnnw ym meddiant yr eglwys neu'n dir yn y gymuned leol, maen nhw'n ategu holl genhadaeth yr eglwys trwy ofalu am y cread a gwasanaethu'r gymdeithas – gan gynyddu mynediad at fyd natur er llesiant pobl, meithrin gwydnwch o ran yr hinsawdd, a chyfeirio pobl at ein Duw sy'n Greawdwr.

Mae dau lwybr trwy'r categori yma yn yr arolwg:

**Llwybr 1**: ar gyfer eglwysi sy'n berchen ar dir neu'n ei reoli, er enghraifft gardd, mynwent ac ati.

**Llwybr 2:** ar gyfer eglwysi sydd â thir *cyfyngedig* iawn, e.e. maes parcio arwyneb caled, perimedr neu ardaloedd eraill ag arwyneb caled, ac eglwysi sydd heb fod yn berchen ar nac yn rheoli *unrhyw* dir. Mae'r llwybr yma'n gofyn i chi ystyried y swm bach o dir sydd gennych, os oes gennych dir o gwbl, ***a hefyd*** sut gallwch chi ddylanwadu ar dir mae eraill yn ei reoli.

**Cyfeiriwch at y ddogfen** Trosolwg tir a byd natur **i gael arweiniad pellach ar gwblhau'r categori yma. (Saesneg yn unig)**

## Cwestiwn Llwybr

**Nodwch pa lwybr, at ei gilydd, sy'n gweddu orau i'ch sefyllfa.**

**Llwybr 1**: Mae ein heglwys ni yn berchen ar dir/yn rheoli tir megis gardd, mynwent ac ati

**Llwybr 2**: Mae'r tir sydd gan ein heglwys ni yn gyfyngedig iawn NEU dyw ein heglwys ni ddim yn berchen ar dir/rheoli tir

Os ydych yn printio'r ddogfen yma nodwch:

**Llwybr 1**: tudalennau 2-5

**Llwybr 2:** tudalennau 6-9

**Noder:** Mae'r ddogfen yma at ddibenion cyfeirio yn unig. I geisio am wobr Eco Church bydd angen copio'r atebion i mewn i'r arolwg arlein (Saesneg yn unig). Ni allwn dderbyn ceisiadau ar bapur.

## Llwybr 1: Mae ein heglwys ni yn berchen ar dir neu'n rheoli tir

### Ymrwymiad

**2. Mae ein heglwys yn cydnabod y cyfraniad sylweddol y gall eglwysi ei wneud i darged y Deyrnas Unedig, sef gwarchod 30% o dir ar gyfer natur erbyn 2030. Rydyn ni wedi rhoi cynllun ar waith i reoli ein tir ar gyfer byd natur er mwyn ein helpu i wneud hynny yn y ffordd fwyaf effeithiol.**

Ydy / Yn rhannol / Nac ydy

### Thema 1 Bioamrywiaeth

**3. Mae ein heglwys yn annog bywyd gwyllt i ffynnu ar ein tir trwy ddarparu'r canlynol:**

**Dewiswch bob un sy'n berthnasol**

blychau adar

blychau ystlumod

gwestai trychfilod

blychau draenogod

bwyd i adar ar hyd y flwyddyn

pwll neu ardal gwlyptir ar gyfer bywyd gwyllt

ardal wyllt, gyda phrysglwyni (e.e. danadl, mieri, chwyn yn y palmant)

pentwr/pentyrrau pren

compostio a thaenu tomwellt fel sy'n briodol

ffynhonnell o ddŵr ar gyfer bywyd gwyllt ar hyd y flwyddyn

arall

dim opsiynau ar gyfer bywyd gwyllt

**4. Mae ein heglwys yn rheoli torri gwair mewn ffordd sy'n gwneud y canlynol:**

**Dewiswch bob un sy'n berthnasol**

annog twf blodau gwyllt (dim torri gwair yn y gwanwyn na'r haf)

caniatáu i laswellt hir dyfu (torri'r gwair bob 2/3 blynedd yn unig)

llesol i ffyngau glaswelltir (torri gwair yn rheolaidd, a chlirio'r gwair a dorrwyd)

rhywbeth arall

ddim yn ceisio gwella'n tir ar gyfer bywyd gwyllt

**5. Mae ein heglwys ni yn fwriadol yn gadael ardaloedd 'heb eu tacluso' yn ystod yr hydref/y gaeaf i gynnal bywyd gwyllt dros y gaeaf:**

Dewiswch bob un sy'n berthnasol

gadael blodau marw a chynwysyddion hadau lle maent

gadael gwelyau blodau a llwyni 'heb eu tacluso'

gadael pentyrrau dail a changhennau lle maent

nid yw ardaloedd heb eu tacluso yn rhan o'n cynllun

**6. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ein heglwys wedi bod wrthi'n brysur yn plannu a/neu'n rheoli coed a/neu wrychoedd ar gyfer bywyd gwyllt ar ein tir neu yn y gymuned leol.**

Dewiswch bob un sy'n berthnasol

Rydyn ni'n plannu a/neu'n rheoli coed neu wrychoedd ar ein tir

Rydyn ni'n helpu i ariannu plannu a rheoli coed a/neu wrychoedd yn lleol

Rydyn ni'n gwirfoddoli mewn mentrau plannu a rheoli coed a/neu wrychoedd yn lleol

Dydyn ni ddim yn ymwneud â phlannu a rheoli coed a/neu wrychoedd

**7. Mae ein heglwys yn cydnabod bod pridd iach yn allweddol er mwyn i fioamrywiaeth ffynnu. Mae ein heglwys ni:**

Dewiswch bob un sy'n berthnasol

yn compostio gwastraff organig o'r ardd ar y safle

yn gwrthod defnyddio cynnyrch garddwriaethol sy'n cynnwys mawn

yn defnyddio dulliau llesol o drin y tir, e.e. dim cloddio/taenu tomwellt

dim un o'r uchod

**8. Mae ein heglwys yn osgoi defnyddio gwrtaith synthetig, plaladdwyr neu chwynladdwyr:**

bob amser / nid bob amser

## Thema 2 Monitro a gwyddoniaeth dinasyddion

**9. Mae ein heglwys yn monitro ac yn adolygu effaith ein cynllun ar gyfer byd natur ar fioamrywiaeth.**

Ydy / Nac ydy

**10. Mae ein heglwys yn cynnal gweithgareddau gwyddoniaeth dinasyddion, gan gynnwys arolygon bywyd gwyllt ar ein tir, i fonitro newidiadau:**

**Dewiswch bob un sy'n berthnasol**

Big Garden Birdwatch

Big Butterfly Count

Churches Count on Nature/ Eglwysi'n Cyfrif Natur

casglu data'n rheolaidd a'i fewnbynnu i gronfa ddata genedlaethol (e.e. iRecord/iNaturalist) 10

arall

Dydyn ni ddim yn cynnal unrhyw weithgareddau gwyddoniaeth i ddinasyddion

**11. Mae ein heglwys yn ymgysylltu â Targed 25 (T25) A Rocha UK neu brosiectau tebyg i helpu rhywogaethau sy'n colli tir, grwpiau tacsonomig a chynefinoedd (ar ein tir ein hunain neu ar dir arall yn y gymuned, e.e. "Partners in Action" ARUK) trwy:**

**Dewiswch bob un sy'n berthnasol**

hyrwyddo'r prosiect ymhlith aelodau'r eglwys

gweithredu ynghylch un neu fwy o rywogaethau, grwpiau neu gynefinoedd T25

cefnogi'r rhai sy'n gweithio ar T25 neu gynllun tebyg (e.e. trwy wirfoddoli)

Ar hyn o bryd, dydyn ni ddim yn cyfrannu at T25

## Thema 3 Pobl

**12. Mae ein heglwys yn rheolaidd yn cymryd rhan mewn sesiwn codi sbwriel/glanhau traeth/glanhau afon gymunedol etc.**

Ydy / Nac ydy

**13. Mae ein heglwys yn tyfu bwyd ar ein safle (gan gynnwys mewn cynwysyddion plannu, blychau etc.).**

Ydy / Nac ydy

**14. Mae ein heglwys yn mynd ati i annog pobl i ddefnyddio a mwynhau ein tir trwy ddarparu:**

**Dewiswch bob un sy'n berthnasol**

deunydd dehongli perthnasol (e.e. byrddau arddangos neu daflenni natur)

meinciau/seddau

trywydd bywyd gwyllt

labyrinth

addasiadau i wella hygyrchedd (e.e. rampiau, arwyneb addas i lwybrau, canllawiau neu arwyddion braille)

ffyrdd o ymgysylltu â phobl sy'n ystadegol yn llai tebygol o gael profiad o fyd natur, a hwyluso mynediad iddyn nhw

arall

Dydyn ni ddim wedi cymryd unrhyw gamau eto i wella hygyrchedd ein tir

**15. Mae ein heglwys yn mynd ati i annog yr aelodau a gwirfoddolwyr i feithrin a diogelu ein tir trwy wneud y canlynol:**

**Dewiswch bob un sy'n berthnasol**

gofalu amdano, er enghraifft trwy arddio

nodi'r bywyd gwyllt sydd yno a chyflwyno cofnodion i iRecord neu iNaturalist

arall

Dydyn ni ddim yn cynnwys pobl eto wrth ofalu am ein tir neu fonitro'r bywyd gwyllt sydd arno

**16. Mae ein heglwys yn cynllunio ac yn gweithredu dros allu'r tir i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd trwy wneud y canlynol:**

**Dewiswch bob un sy'n berthnasol**

amddiffyn y pridd trwy daenu tomwellt, compostio a defnyddio gwrtaith naturiol yn ystod cyfnodau o sychder

creu ardaloedd cysgodol

rheoli dŵr glaw (e.e. defnyddio casgenni dŵr a chreu gerddi glaw a cheunentydd bas)

creu ardaloedd mwd gwlyb i helpu adar sydd angen mwd ar gyfer eu nythod (e.e. gwenoliaid a gwenoliaid y bondo)

arall

Dydyn ni ddim wedi cymryd unrhyw gamau eto i gyfnerthu'r tir yn wyneb y newid i'r hinsawdd

## Llwybr 2: Mae ein heglwys yn rheoli neu'n berchen ar ddarn bach o dir yn unig (e.e. perimedr yr adeilad) NEU nid yw'n rheoli nac yn berchen ar unrhyw dir

### Ymrwymiad

**2. Mae ein heglwys yn cydnabod y cyfraniad sylweddol y gall eglwysi ei wneud i darged y Deyrnas Unedig, sef gwarchod 30% o dir ar gyfer natur erbyn 2030. Rydym yn rheoli ein tir ein hunain a/neu'n gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau neu grwpiau cymunedol eraill i reoli eu tir nhw ar gyfer byd natur.**

Ydy / Nac ydy

### Thema 1 Bioamrywiaeth

**3. Mae ein heglwys yn annog bywyd gwyllt i ffynnu ar ein tir (os yw hynny'n berthnasol) ac/neu yn cefnogi sefydliadau neu grwpiau cymunedol eraill i annog bywyd gwyllt i ffynnu trwy ddarparu'r canlynol:**

*Dewiswch bob un sy'n berthnasol*

blychau adar

blychau ystlumod

gwestai trychfilod

blychau draenogod

bwyd i adar ar hyd y flwyddyn

pwll neu ardal gwlyptir ar gyfer bywyd gwyllt

ardal blodau gwyllt

ardal wyllt, gyda phrysglwyni (e.e. danadl, mieri, chwyn yn y palmant)

pentwr/pentyrrau pren

compostio a thaenu tomwellt fel sy'n briodol

creu gardd ar y to neu ardd fertigol

ffynhonnell o ddŵr ar gyfer bywyd gwyllt ar hyd y flwyddyn

arall

Dydyn ni ddim yn cefnogi grwpiau a sefydliadau cymunedol eraill i reoli tir ar gyfer bywyd gwyllt

**4. Mae ein heglwys yn cefnogi plannu llesol i fywyd gwyllt (e.e. adar, pili palod etc) ar ein tir trwy wneud y canlynol:**

*Dewiswch bob un sy'n berthnasol*

plannu mewn un neu fwy o gynwysyddion

plannu mewn un neu fwy o flychau ffenest

creu gardd ar y to neu ardd fertigol

Dydyn ni ddim yn tyfu planhigion llesol i fywyd gwyllt ar hyn o bryd

AMH (does gennym ni ddim tir nac adeiladau i gefnogi hyn)

**5. Mae ein heglwys yn fwriadol yn gadael ardaloedd 'heb eu tacluso' yn ystod yr hydref/y gaeaf i gynnal bywyd gwyllt dros y gaeaf:**

*Dewiswch bob un sy'n berthnasol*

gadael blodau marw a chynwysyddion hadau lle maent

gadael cynwysyddion blodau gwyllt 'heb eu tacluso'

gadael pentyrrau dail a changhennau lle maent

nid yw ardaloedd heb eu tacluso yn rhan o'n cynllun

AMH (does gennym ni ddim tir nac adeiladau i gefnogi hyn)

**6. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ein heglwys wedi bod wrthi'n brysur yn plannu a/neu'n rheoli coed a/neu wrychoedd ar gyfer bywyd gwyllt ar ein tir (os yw'n berthnasol) neu gyda phartner cadwraeth/cymunedol trwy wneud y canlynol:**

*Dewiswch bob un sy'n berthnasol*

helpu i ariannu plannu a rheoli coed a/neu wrychoedd

plannu a rheoli coed a/neu wrychoedd

Dydyn ni ddim yn ymwneud â phlannu a rheoli coed a/neu wrychoedd ar hyn o bryd

**7. Mae ein heglwys yn osgoi defnyddio gwrtaith synthetig, plaladdwyr a chwynladdwyr, ac yn annog ein partneriaid i wneud yr un fath**

Ydy / Nac ydy (defnyddio weithiau, yn achlysurol neu symiau bach iawn) / AMH (does gennym ni ddim tir)

## Thema 2 Monitro a gwyddoniaeth dinasyddion

**8. Mae ein heglwys yn rhan o weithgareddau gwyddoniaeth dinasyddion lleol neu weithgareddau eraill sy'n cofnodi rhywogaethau ac yn monitro newidiadau poblogaeth. Gallai hynny ddigwydd gydag eglwys arall, mewn gardd gymunedol neu barc lleol, neu gyda phartner cadwraeth – un o "Partners in Action" ARUK, er enghraifft.**

*Dewiswch bob un sy'n berthnasol*

Big Garden Birdwatch

Big Butterfly Count

Churches Count on Nature / Egwlysi'n Cyfrif Natur

arall

Dydyn ni ddim ar hyn o bryd yn rhan o unrhyw weithgareddau gwyddoniaeth dinasyddion na phethau tebyg

**9. Mae ein heglwys yn ymgysylltu â Targed 25 (T25) A Rocha UK neu brosiectau tebyg i helpu rhywogaethau sy'n colli tir, grwpiau tacsonomig a chynefinoedd (ar ein tir ein hunain neu ar dir arall yn y gymuned, e.e. "Partners in Action" ARUK) trwy:**

*Dewiswch bob un sy'n berthnasol*

hyrwyddo'r prosiect ymhlith aelodau'r eglwys

darparu cefnogaeth ariannol i'r prosiect

canolbwyntio ar un neu fwy o rywogaethau, grwpiau neu gynefinoedd T25 ar ein tir, neu gyda phartner cadwraeth

Ar hyn o bryd, dydyn ni ddim yn rhan o T25

## Thema 3 Pobl

**10. Mae ein heglwys yn rheolaidd yn cymryd rhan mewn sesiwn codi sbwriel/glanhau traeth/glanhau afon etc yn y gymuned.**

Ydy / Nac ydy

**11. Mae ein heglwys yn ymwneud â thyfu bwyd, er enghraifft ar randir neu mewn gardd gymunedol.**

Ydy / Nac ydy

**12. Mae ein heglwys yn annog pobl i fynd allan i'r awyr agored ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau byd natur – er enghraifft gweithgareddau T25, addoliad awyr agored, gwyliau natur/ffermio, teithiau cerdded lleol neu wirfoddoli ar gyfer cadwraeth.**

Ydy / Nac ydy

**13. Mae ein heglwys yn mynd ati i annog yr aelodau a gwirfoddolwyr i feithrin a diogelu ein tir ein hunain neu dir arall trwy wneud y canlynol:**

*Dewiswch bob un sy'n berthnasol*

ymwneud â rheoli tir yn ymarferol neu weithgareddau garddio

nodi bywyd gwyllt a chyflwyno data i iRecord neu iNaturalist, er enghraifft

arall

Dydyn ni ddim yn cynnwys pobl ar hyn o bryd wrth ofalu am ein tir ein hunain neu dir arall

**14. Mae ein heglwys yn cynllunio ac yn gweithredu dros allu'r tir i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd trwy wneud y canlynol:**

*Dewiswch bob un sy'n berthnasol*

amddiffyn y pridd trwy daenu tomwellt, compostio a defnyddio gwrtaith naturiol, lle bo modd, yn ystod cyfnodau o sychder

creu ardaloedd cysgodol

rheoli dŵr glaw (e.e. defnyddio casgenni dŵr a chreu gerddi glaw a cheunentydd bas)

creu ardaloedd mwd gwlyb i helpu adar sydd angen mwd ar gyfer eu nythod (e.e. gwenoliaid a gwenoliaid y bondo)

ymgysylltu ag eraill yn y gymuned ynghylch mesurau cyfnerthu yn wyneb y newid i'r hinsawdd

arall

Dydyn ni ddim wedi cymryd unrhyw gamau eto i gyfnerthu'r tir yn wyneb y newid i'r hinsawdd

AMH (does gennym ni ddim tir)